

**COFNODION CYFARFOD Y CYNGOR A GYNHALIWDYD AR NOS LUN, 10
CHWEFROR AM 6 PM**

PRESENNOL: Y Maer (Cynghorydd Wilkinson) ynghyd â'r Cynghorwyr Aviet, Bailey, Brooks, Charles, Clarke, Collins, Drake, Hawkins, N Hodges, S Hodges, Hooper, Johnson, Lloyd-Selby, Nugent-Finn, Perkes, Richardson, Rowlands, Wiliam, a Wright.

HEFYD YN BRESENNOL: Emily Forbes Prif Swyddog (Clerc y Dref)
Mark Sims - Dirprwy Brif Swyddog
Robyn Walsh - Swyddog Ymgysylltu
Cymunedol

683. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth y Cynghorwyr Hampton a Payne.

**684. DERBYN DATGANIADAU O FUDDIANNAU O DAN GOD
YMDDYGIAD Y CYNGOR GAN NODI GORCHYMYN AWDURDODAU
LLEOL (MODEL GOD YMDDYGIAD) (CYMRU) 2008 A
GORCHYMYN AWDURDODAU LLEOL (MODEL GOD YMDDYGIAD)
(CYMRU) (DIWYGIAD) 2016 A FABWYSIADWYD GAN Y CYNGOR
AR 16 MAI 2017 (TUDALEN 16 RHAN 3)**

Gwnaeth y Cynghorwyr Aviet, Bailey, Brooks, Charles, Collins, Drake, N Hodges, Johnson, Nugent-Finn, Perkes, Rowlands, Wiliam, Wilkinson a Wright ddatganiad o fudd yn eitem 21 ar yr agenda (Ail-lunio Gwasanaethau) gan eu bod hefyd yn Gynghorwyr Cyngor Bro Morgannwg a dywedasant eu bod wedi cael goddefeb i siarad a phleidleisio ar yr eitem.

Gwnaeth y Cynghorwyr Bailey, Charles, Nugent-Finn, Rowlands a Wright ddatganiad o fudd yn eitem 20 ar yr agenda (Siarter rhwng Cyngor Bro Morgannwg a Chynghorau Tref & Chymuned) gan eu bod hefyd yn Gynghorwyr Cyngor Bro Morgannwg. Dywedasant nad oeddent wedi ceisio goddefeb ac na fyddent yn gadael yr ystafell tra bod y mater yn cael ei drafod.

Dywedodd y Cynghorydd Wiliam wrth y Cyngor y byddai'n datgan budd yn eitem 27 ar yr agenda gan ei fod yn aelod o'r capel dan sylw a'i fod wrthi'n ceisio goddefeb gan y Swyddog Monitro. Dywedodd y byddai, hyd nes y caiff gadarnhad gan y Swyddog Monitro, yn gadael yr ystafell tra bod y mater yn cael ei drafod.

**685. CYMERADWYO A LLOFNODI COFNODION CYFARFOD Y
CYNGOR LLAWN A GYNHALIWDYD AR 20 IONAWR 2020**

Nododd y Cynghorydd S Hodges ei bod wedi esbonio i aelodau ar ddechrau'r cyfarfod fod y Cynghorydd Wiliam ar ei ffordd. Fodd

bynag, nid oedd yn gallu dod i mewn i'r adeilad. Gofynnodd y Cynghorydd S Hodges a ellid nodi hyn a chofnodi ei ymddiheuriadau.

Dywedodd y Prif Swyddog nad oedd yn gallu rhoi diweddariad iddynt o ran cofnodion rhif 628(1), 628(2) a 628(4) a gofynnodd a ellid trafod hyn o dan Rhan 2 yn hwyrach yn y noson.

PENDERFYNWYD: Y dylid cymeradwyo a llofnodi'n gywir gofnodion cyfarfod Arbennig y Cyngor Llawn a gynhaliwyd ar 20 Ionawr 2020, ar yr amod y gwneir y newid uchod.

686. **DERBYN CYFATHREBIADAU ODDI WRTH Y MAER**

Dywedodd y Maer wrth yr aelodau ei bod yn gobeithio cynnal Noson Ras Elusennol, ac y darperir manylion unwaith y maent ar gael.

Dywedodd y Maer wrth yr aelodau hefyd y bydd yn cynnal ei Chinio Diwedd Blwyddyn ar nos Wener, 1 Mai 2020. Bydd mwy o fanylion ar gael cyn bo hir.

PENDERFYNWYD: Y dylid derbyn a nodi cyfathrebiadau oddi wrth y Maer.

687. **YSTYRIED CWESTIYNAU ODDI WRTH GYNGHORWYR (CYFEIRIR AT REOL SEFYDLOG 3 (E))**

Ni dderbyniwyd unrhyw gwestiynau.

688. **YSTYRIED CWESTIYNAU/SYLWADAU ODDI WRTH AELODAU'R CYHOEDD (CYFEIRIR AT REOL SEFYDLOG 3 (F))**

Gofynnodd Barrie Shaw (aelod o'r cyhoedd) i'r Cyngor roi diweddariad iddo ynghylch y cwestiynau canlynol a ofynnwyd i'r Maer mewn cyfarfod o'r Cyngor Llawn a gynhaliwyd ar nos Lun, 2 Rhagfyr 2019:-

1. A wnaiff Maer Y Barri ysgrifennu ar ran y Cyngor hwn i Gyngor Bro Morgannwg, Llywodraeth Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru yn gofyn am ddiweddariad ar broses EIA gyflawn a'r caniatâd cynllunio sydd ei angen ar gyfer llosgydd Biomas Y Barri?
2. A wnaiff Maer Y Barri ysgrifennu ar ran y Cyngor at y Prif Weinidog a'n Haelodau Cynulliad etholedig yn condemnio'r bwriad i gomisiynu'r llosgydd biomas yn Y Barri heb y broses EIA gyflawn a chaniatâd cynllunio?

Dywedodd y Prif Swyddog y cafodd llythyrau yn gofyn am ddiweddariad ar y broses EIA gyflawn ac unrhyw ganiatâd cynllunio oedd ei angen ar gyfer llosgydd Biomas Y Barri eu danfon. Fodd bynnag, ni dderbyniwyd llawer o ymatebion.

Roedd Cyfoeth Naturiol Cymru wedi ymateb trwy ddweud, gan ei fod yn fater cynllunio erbyn hyn, nad oedd mwyach o fewn eu cylch gorchwyl, ac y dylai'r Cyngor aros yn hytrach i dderbyn ymateb gan Lywodraeth Cymru.

Hefyd, darllenwyd llythyr a dderbyniwyd oddi wrth y Cynghorydd Neil Moore i'r aelodau. Fodd bynnag, nid oedd yn amlwg i aelodau y cafodd y cwestiynau gwreiddiol eu hateb yn llawn.

Gofynnodd Barrie Shaw hefyd am ddiweddariad ar wefan y Cyngor a phryd y byddai'n bosib gweld agenda cyfarfodydd y Cyngor Llawn arni.

Dywedodd y Prif Swyddog ei bod wedi gobeithio y byddai'n fyw mewn pryd ar gyfer y cyfarfod hwn. Fodd bynnag, oherwydd y symud swyddfa a'r angen i gyfieithu'r i'r Gymraeg, nid yw hynny wedi bod yn bosib. Dywedodd y Prif Swyddog wrth yr aelodau fod ganddi gyfarfod wedi'i drefnu ar gyfer dydd Gwener gyda'r dylunwyr ac roedd yn obeithiol y byddai'r wefan yn barod i'w chyfieithu cyn bo hir. Dywedodd hefyd fod copïau papur o'r agenda ar gael i'w gweld gan y cyhoedd yn Llyfrgell Y Barri.

Dywedodd Barrie Shaw ei fod yn ymwybodol o hyn. Fodd bynnag, pryd bynnag y mae wedi ceisio gweld agenda cyfarfodydd y Cyngor Tref yn y Llyfrgell, nid oedd staff yn gwybod ymhle roeddent yn cael eu cadw. Dywedodd y Prif Swyddog y byddai'n cysylltu â'r Llyfrgell i sicrhau bod yr holl staff yn ymwybodol o hyn.

PENDERFYNWYD y bydd y Prif Swyddog yn cysylltu â Llyfrgell Y Barri i drafod galluogi'r cyhoedd i weld agenda cyfarfodydd y Cyngor Tref.

689. **YSTYRIED CYNIGION A GYFLWYNWYD GAN GYNGHORWYR**

Ni dderbyniwyd unrhyw gynigion.

690. **EITHRIO'R WASG & CYHOEDD**

7.15 pm – Trafododd a chytunodd yr aelodau i symud i ran 2 y cyfarfod er mwyn trafod eitem agenda 28 allai effeithio ar drafodaethau'r Cyngor ar y Gyllideb Ddrafft (eitem agenda19).

PENDERFYNWYD yn unol ag adran 1(2) Deddf Cyrff Cyhoeddus (Mynediad i Gyfarfodydd) 1960, ac oherwydd natur gyfrinachol y materion sydd ar fin cael eu trafod, ei bod yn well er lles y cyhoedd fod y wasg a'r cyhoedd yn cael eu heithrio o weddill y cyfarfod.

691. **COED YM MYNWENT MERTHYR DYFAN**

Cyflwynwyd adroddiad i'r aelodau ynghylch y Coed/Clawdd, sef y clawdd sy'n rhedeg o'r Dwyrain i'r Gorllewin ar draws ffin Mynwent y De; mae'r ffin gyda thai preswyl preifat yn Heol Sant Andreas. Gofynnwyd i'r aelodau drafod y cam nesaf ar gyfer Cyngor Tref Y Barri o ran tua 141 o goed a drafodwyd gan y Pwyllgor Neuaddau, Mynwentydd a Chyfleusterau Cymunedol.

Trafododd yr aelodau yr adroddiad yn fanwl, a chytunwyd fod angen mwy o wybodaeth cyn y byddent yn gallu gwneud penderfyniad gwybodus. Roedd aelodau hefyd yn teimlo y dylid ymgynghori gyda thrigolion a'r cyhoedd yn gyffredinol.

Roedd aelodau'n teimlo nad oedd rhai o'r dewisiadau sydd ar gael yn gydnaws â gwerthoedd bioamrywiaeth a chynaliadwyedd y Cyngor.

Cytunodd aelodau y byddai angen gwneud darpariaeth gyfatebol ar gyfer unrhyw brosiectau posib yng nghyd-destun yr eitem hon, a phenderfynwyd felly y dylid clustnodi £20,000 o'r Gweddillion Cyffredinol i'w gynnwys yng nghyllideb 2020/21 ar gyfer y prosiect hwn.

PENDERFYNWYD

- 1. Y dylai'r Rheolydd Cyfleusterau a Mynwentydd ddarparu adroddiad arall i'r Pwyllgor Neuaddau, Mynwentydd Chyfleusterau Cymunedol yn cynnwys rhagor o fanylion, ac y dylid cynnal ymgynghoriadau gyda thrigolion a'r cyhoedd yn gyffredinol cyn gwneud penderfyniad.**
- 2. Y dylid gwneud darpariaeth gyllidebol o £20,000 ar gyfer gwaith ar goed yn y Fynwent yng nghyllideb 2020/21 ac y dylid cymryd y swm yma allan o'r Gweddillion Cyffredinol.**

7.42 pm – gwahoddwyd aelodau'r wasg a'r cyhoedd i ail-ymuno â'r cyfarfod

692.

DERBYN A NODI COFNODION CYFARFODYDD Y PWYLLGOR CYNLLUNIO A GYNHALIWDYD AR 11 RHAGFYR 2019, 8 IONAWR 2020 A 29 IONAWR 2020 AC I ROI YSTYRIAETH I UNRHYW ARGYMHELLION A GYNHWYSIR YNDDYNT

PENDERFYNWYD: Y dylid derbyn a nodi cofnodion cyfarfodydd y Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd ar 11 Rhagfyr 2019, 8 Ionawr 2020 a 29 Ionawr 2020.

693.

DERBYN A NODI COFNODION CYFARFOD Y GWEITHGOR YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWDYD AR 7 IONAWR 2020 AC I ROI YSTYRIAETH I UNRHYW ARGYMHELLION A GYNHWYSIR YNDDYNT

PENDERFYNWYD: Y dylid derbyn a nodi cofnodion cyfarfod y Gweithgor Ymgynghoriadau a gynhaliwyd ar 7 Ionawr 2020.

694. **DERBYN A NODI COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR NEUADDAU, MYNWENTYDD A CHYFLEUSTERAU CYMUNEDOL A GYNHALIWDY AR 13 IONAWR 2020 AC I ROI YSTYRIAETH I UNRHYW ARGYMHELLION A GYNHWYSIR YNDDYNT, GAN NODI Y TRAFODIR ARGYMHELLIAD, COFNOD RHIF A199, O DAN RAN 2 Y CYFARFOD YN EITEM AGENDA 28**

PENDERFYNWYD: Y dylid derbyn a nodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Neuaddau, Mynwentydd a Chyfleusterau Cymunedol a gynhaliwyd ar 13 Ionawr 2020, gan nodi y trafodwyd Argymhelliad i gyfarfod o'r Cyngor Llawn yng nghofnod A 199 o dan Ran 2 y cyfarfod.

695. **DERBYN A NODI COFNODION CYFARFOD GWEITHGOR Y BARRI GYNALIADWY A GYNHALIWDY AR 13 IONAWR 2020 AC I ROI YSTYRIAETH I UNRHYW ARGYMHELLION A GYNHWYSIR YNDDYNT**

PENDERFYNWYD:

1. Y dylid derbyn a nodi cofnodion cyfarfod Gweithgor Y Barri Gynaliadwy a gynhaliwyd ar 13 Ionawr 2020.
2. Gan gychwyn syth, y gwneir yr holl argraffu mewnol mewn "modd drafft" er mwyn defnyddio llai o inc a thorri costau.
3. Y dylid edrych eto ar ddalenni gweithredu er mwyn rhoi'r gorau i argraffu mewn lliw.
4. Yn y dyfodol, y caiff dogfennau'r Cyngor (megis y Cynllun Corfforaethol) eu hargraffu mewn du a gwyn pan maent yn cael eu hargraffu ar gyfer trafodaethau mewnol ac yng nghyfarfodydd y Cyngor, ac eithrio argraffu melyn ar gyfer papurau cyfrinachol.
5. Y dylai'r Cyngor ofyn i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus adolygu ei aelodaeth er mwyn cynnwys cynrychiolaeth gan gynghorau tref & chymunedol unigol ac y dylid datgan, gan fod Cyngor Tref Y Barri yn gwasanaethu'r dref fwyaf yng Nghymru, y dylai'r Cyngor gael cynrychiolaeth lawn ar y Bwrdd yn ei hawl ei hun.

696. **DERBYN A NODI COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR PERSONEL A GYNHALIWDY AR 20 IONAWR 2020 AC I ROI YSTYRIAETH I UNRHYW ARGYMHELLION A GYNHWYSIR YNDDYNT**

Dywedodd y Cyngorydd Richardson y bu'n bresennol yn y cyfarfod yn sylwedydd. Fodd bynnag, nid oedd hynny'n cael ei adlewyrchu yn y cofnodion.

PENDERFYNWYD: Y dylid derbyn a nodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Personél a gynhaliwyd ar 20 Ionawr 2020, ar yr amod y gwneir y newid uchod.

697. **DERBYN A NODI COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR CYLLID, POLISI A DIBENION CYFFREDINOL A GYNHALIWDYD AR 27 IONAWR 2020 AC I ROI YSTYRIAETH I UNRHYW ARGYMHELLION A GYNHWYSIR YNDDYNT**

PENDERFYNWYD:

1. Y dylid derbyn a nodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cyllid, Polisi a Dibenion Cyffredinol a gynhaliwyd ar 27 Ionawr 2020, gan nodi y trafodir Argymhelliad i gyfarfod o'r Cyngor Llawn o dan gofnod F228. (y Gyllideb Ddrafft) yn llawn yn Eitem Agenda 18.
2. Fod y grant prydau Nadolig ar gael i bob mudiad sy'n darparu prydau Nadolig i drigolion Y Barri.

698. **DERBYN A NODI COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR MASNACH DEG YMGYNGHOROL A GYNHALIWDYD AR 30 IONAWR 2020 AC I ROI YSTYRIAETH I UNRHYW ARGYMHELLION A GYNHWYSIR YNDDYNT**

Nododd y Cyngorydd Lloyd-Selby ei bod wedi cyflwyno ei hymddiheuriadau ar gyfer y cyfarfod hwn. Fodd bynnag, nid oedd hyn yn cael ei adlewyrchu yn y cofnodion.

PENDERFYNWYD: Y dylid derbyn a nodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Masnach Deg Ymgynghorol a gynhaliwyd ar 30 Ionawr 2020, ar yr amod y gwneir y newid uchod.

699. **DERBYN A NODI COFNODION CYFARFOD Y GRŴP SIOPA'N LLEOL YN Y BARRI YMGYNGHOROL A GYNHALIWDYD AR 6 CHWFROR 2020 AC I ROI YSTYRIAETH I UNRHYW ARGYMHELLION A GYNHWYSIR YNDDYNT**

PENDERFYNWYD:

1. Y dylid derbyn a nodi cofnodion cyfarfod y Grŵp Ymgynghorol Siopa'n Lleol yn Y Barri a gynhaliwyd ar 6 Chwefror 2020.
2. Y dylid cymeradwyo dau fis arall o drefnu contract allanol ar gyfer cyfryngau cymdeithasol, am gost o £800 i'w gymryd allan o gyllideb Pwyllgor Ymgynghorol Siopa'n Lleol Y Barri 2019/20.

3. Y dylid cymeradwyo mis ychwanegol o drefnu contract allanol ar gyfer cyfryngau cymdeithasol, ar gyfer mis Ebrill 2020, am gost o £400 i'w gymryd allan o gyllideb Pwyllgor Ymgynghorol Siopa'n Lleol Y Barri 2020/21.
4. Y dylid cymeradwyo cyllid o £1725 ar gyfer digwyddiad Gŵyl Dewi Sant o Gyllideb Siopa'n Lleol 2019/20, ar yr amod fod y Cyngor yn cael y gydnabyddiaeth briodol.

700.

ATODLEN TALU CYFRIFON AR GYFER CHWEFROR 2020

Derbyniodd yr aelodau y rhestr daliadau ar gyfer Chwefror 2020 i'w chymeradwyo, yn cynnwys taliadau BACS a debydau uniongyrchol gwerth cyfanswm o £42,408.32.

PENDERFYNWYD:

1. Y dylid derbyn a nodi'r wybodaeth ynghylch taliadau cyflog ar gyfer Rhagfyr 2019 a Ionawr 2020 yn gynwysedig, a ardystiwyd ac a awdurdodwyd gan y swyddogion priodol yn unol â gofynion Rheol Sefydlog 19(c).
2. Y dylid cymeradwyo'r rhestr daliadau ar gyfer Chwefror 2020 yn cynnwys taliadau BACS a debydau uniongyrchol gwerth cyfanswm o £42,408.32

701.

ADRODDIAD MONITRO'R GYLLIDEB RHWNG 1 EBRILL A 31 RHAGFYR 2019

Derbyniodd yr aelodau adroddiad yn rhoi gwybod iddynt am incwm a gwariant y Cyngor ym mlwyddyn ariannol 2019/20 fel yr oedd ar ddiwedd Rhagfyr 2019.

PENDERFYNWYD: Y dylid derbyn adroddiad monitro'r gyllideb ar gyfer Rhagfyr 2019, yn dangos yr union incwm a gwariant hyd at ddiwedd mis saith ym mlwyddyn ariannol 2019/20, gan nodi'r tanwariant disgwylidig o £38,258 ar gyfer 2019/20.

702.

SYLWADAU A DDERBYNIWYD TRWY'R YMGYNGHORIAD Y GYLLIDEB

Derbyniodd yr aelodau'r wybodaeth a ddarparwyd i'r cyhoedd a'r sylwadau a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghorol ar gyfer y gyllideb ddrafft 2020/21.

PENDERFYNWYD: Y dylid derbyn a nodi'r adroddiad.

703.

CYLLIDEB DDRAFFT 2020/21

Derbyniodd yr aelodau'r cynnig cyllideb drafft ar gyfer blwyddyn ariannol 2020/21.

Atgoffwyd yr aelodau y bu iddynt yng nghyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 2 Rhagfyr 2019 gymeradwyo cyllideb ddrafft 2020/21 ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus a bennodd yn ddarpariaethol ofyniad praesept o £1,196,579, sef cynnydd i dalwr treth Band D o 1.14%.

Cychwynnodd y Cynghorydd Brooks y drafodaeth, gan ddweud fod gan y Cyngor ddyheadau ac nad oedd bob tro'n glir pa brosiectau fyddai'n cael eu cyflwyno i'r Cyngor i'w hystyried, ac o'r herwydd roedd yn bwysig fod arian yn parhau i fod ar gael. Cynigiodd y Cynghorydd Brooks, gyda'r Cynghorydd Lloyd-Selby yn eilio y dylai Cyngor Tref Y Barri ymrwmo i godi'r praesept 1% trwy dorri £2,000 oddi ar yr incwm i'r gyllideb a neilltuwyd ar gyfer Rhaglen Ffyrdd Mynwentydd. Golygai hynny y byddai talwr Treth Band D yn talu £58.44 y flwyddyn.

Cefnogodd y Cynghorwyr Bailey ac S Hodges sef Arweinyddion Grwpiau yr wrthblaid gynnog y Cynghorydd Brooks.

Cafwyd pleidlais, a chanlyniad hynny oedd cefnogaeth unfrydol o blaid cynnog yr Arweinydd.

Gofynnodd y Dirprwy Prif Swyddog i'r aelodau gytuno y dylid cynnwys y rhaglen ffensio yng nghyllideb 2020/21 at ddibenion y cofnodion.

PENDERFYNWYD:

- 1. Y dylid cymeradwyo'r gyllideb ddrafft.**
- 2. Y cynhwysir y rhaglen ffensio gwerth £27,000 yng nghyllideb 2020/21, wedi'i hariannu o Weddillion Gwella Mynwentydd.**
- 3. Y dylid codi praesept o £1,194,864 ar Gyngor Bro Morgannwg ar gyfer blwyddyn ariannol 2020/21, yn cyfateb i £58.44 ar gyfer pob talwr treth cyngor Band 'D', neu gynnydd o 1% o gymharu â £57.86 ar gyfer 2019/20.**

704.

SIARTER RHWNG CYNGOR BRO MORGANNWG A CHYNGHORAU TREF A CHYMUNED I'W MABWYSIADU

Derbyniodd yr aelodau y Siarter rhwng Cyngor Bro Morgannwg a Chynghorau Tref a Chymuned.

Cyfeiriodd y Cynghorydd S Hodges at gyflwyniad a glywodd yn y Cyfarfod Cyswllt Cymunedol gan Victoria Robinson ynghylch Cynllunio a'r Siarter. Dywedodd y bydd Cynghorwyr Tref & Chymuned yn cael slot penodol ar gyfer cyflwyno sylwadau yng nghyfarfodydd Cynllunio y

Fro ac y bydd angen i'r Pwyllgor Cynllunio enwebu cynrychiolydd ar gyfer hyn.

PENDERFYNWYD:

- 1. Y dylid mabwysiadu'r Siarter rhwng Cyngor Bro Morgannwg a Chynghorau Tref a Chymuned.**
- 2. Y dylai'r Pwyllgor Cynllunio enwebu cynrychiolydd i fynychu cyfarfodydd Pwyllgor Cynllunio Cyngor Bro Morgannwg ar ran Cyngor Tref Y Barri i gyflwyno sylwadau (os oes angen) yn y slot penodedig a drefnwyd ar gyfer Cynghorau Tref & Chymuned.**

705. **AIL-LUNIO GWASANAETHAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw beth.

Cytunodd yr aelodau y dylid tynnu'r eitem hon oddi ar yr agenda hyd nes y bydd diweddariad ar gael.

PENDERFYNWYD y dylid tynnu'r eitem sefydlog; Ail-lunio Gwasanaethau oddi ar agenda cyfarfodydd y Cyngor Llawn hyd nes y bydd diweddariad ar gael.

706. **DATHLIADAU DIWRNOD VE 75**

Cafodd yr aelodau adroddiad ar Ddathliadau Diwrnod VE a gofynnwyd iddynt ystyried a yw'r Cyngor yn dymuno trefnu digwyddiad hefyd.

Trafododd a phenderfynodd yr aelodau yr hoffent drefnu digwyddiad, a gofynnwyd i Swyddog gysylltu â Barry at War, y Lleng Brydeinig Frenhinol, Barry RAF a'r Llynges Fasnachol i weithio mewn partneriaeth.

Trafododd yr aelodau y posibilrwydd o drefnu Te Prynawn / Dawns ar y Sgwâr a'r posibilrwydd y byddai'n rhaid cynnal y digwyddiad ar y dydd Iau cyn Diwrnod VE oherwydd yr ŵyl banc.

Holodd y Cynghorydd S Hodges a oedd aelodau'n awyddus i hyrwyddo grantiau ar gyfer y sawl yn y gymuned oedd yn dymuno trefnu parti stryd fel y gwnaeth y Cyngor ar gyfer digwyddiadau eraill fel 90ain Penblwydd y Frenhines. Cytunodd yr aelodau y dylid neilltuo hyd at £3,000 o gyllideb Grantiau Cymunedol.

Nododd y Cynghorydd Charles hefyd efallai y byddai'r Cyngor yn gallu gwneud cais am Grant y Lluoedd Arfog ac y dylid ymchwilio hynny.

PENDERFYNWYD:

1. Y bydd y Cyngor yn cefnogi Diwrnod VE trwy gynnal digwyddiad ar Sgwâr y Brenin, ac yn ceisio datblygu partneriaethau gyda Barry at War, y Lleng Brydeinig Frenhinol, Barry RAF, y Llynges Fasnachol a nifer o gyrff a mudiadau perthnasol eraill.
2. Y cynigir grantiau o £4.50 y pen ar gyfer unrhyw un yn y gymuned sy'n awyddus i drefnu parti stryd ac y dylid dyrannu hyd at £3,000 o gyllideb Grantiau Cymunedol i'r perwyl hwn.

707. **DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF**

PENDERFYNWYD: Y cynhelir cyfarfod arferol nesaf y Cyngor Llawn ar nos Lun, 6 Ebrill 2020 am 7 pm.

708. **EITHRIO'R WASG & CYHOEDD**

PENDERFYNWYD yn unol ag adran 1(2) Deddf Cyrff Cyhoeddus (Mynediad i Gyfarfodydd) 1960, ac oherwydd natur gyfrinachol y materion sydd ar fin cael eu trafod, ei bod yn well er lles y cyhoedd fod y wasg a'r cyhoedd yn cael eu heithrio o weddill y cyfarfod.

709. **GWEITHREDOEDD BRYG**

Ni chafwyd unrhyw weithredoedd bryg.

710. **DERBYN A NODI COFNODION CYFARFOD GWEITHGOR Y NEUADD GOFFA A'R THEATR A GYNHALIWDYD AR 23 IONAWR 2020 AC I ROI YSTYRIAETH I UNRHYW ARGYMHELLION A GYNHWYSIR YNDDYNT**

PENDERFYNWYD: Y dylid derbyn a nodi cofnodion cyfarfod y Gweithgor y Neuadd Goffa a'r Theatr a gynhaliwyd ar 23 Ionawr 2020.

8.10 pm – Gadawodd y Cynghorydd Wiliam y cyfarfod.

711. **COSTAU AROLWG O EGLWYS TABERNACLE, HEOL HOLTON, Y BARRI AR GYFER PROSIECT TREFTADAETH I'R DYFODOL**

Cyflwynwyd adroddiad i'r aelodau ar gostau (£6,050) cynnal arolwg o Eglwys Tabernacle, Heol Holton, Y Barri ar gyfer prosiect treftadaeth yn y dyfodol.

Dywedodd y Prif Swyddog wrth yr aelodau y byddai'n rhaid i'r Cyngor, er mwyn gallu cynnal yr arolwg, awdurdodi trosglwyddiad o £6,050 o gyflogau i gyllideb Ffioedd Proffesiynol. Ychwanegodd, er mwyn archwilio'r prosiect hwn a dewisiadau grant posib ymhellach, y byddai'n rhaid cynnal arolwg.

Dywedwyd wrth yr aelodau fod cryn dipyn o ddiddordeb yn yr adeilad ac y gallai cynnal yr arolwg ddangos i'r gwerthwr fod y Cyngor o ddifrif.

Atgoffodd y Cynghorydd N Hodges yr aelodau fod y prosiect yn rhan o Gynllun Corfforaethol y Cyngor.

PENDERFYNWYD:

- 1. Y dylid awdurdodi trosglwyddiad o £6,050 o bennawd gwariant M&S/Cyflogau i M&S/Ffioedd Proffesiynol Eraill i dalu costau arolwg adeiladau fel y nodir yn yr adroddiad.**
- 2. Y dylai'r Prif Swyddog geisio barnu lefel y diddordeb gan Werthwr Tai y Gwerthwr, gan gadarnhau bwriad y Cyngor trwy awdurdodi arolwg.**

8.25 pm – Ail-ymunodd y Cynghorydd Wiliam â'r cyfarfod.

712.

CYMERADWYO A LLOFNODI COFNODION CYFARFOD ARBENNIG Y CYNGOR A GYNHALIWYD AR 20 IONAWR 2020

Rhoddodd y Prif Swyddog wybod i'r aelodau am llythyr a dderbyniwyd oddi wrth Nigel Connor (cyfreithiwr yn gweithredu ar ran JD Wetherspoon) dyddiedig 6 Chwefror 2020 a llythyr drafft a ysgrifennwyd gan gyfreithwyr y Cyngor yn rhoi sylw i gyfarfod diwethaf y Cyngor Llawn (a gynhaliwyd ar 20 Ionawr 2020) a'r llythyr diweddaraf a dderbyniwyd.

8.25 pm – Cynigiodd y Cynghorydd Brooks, gyda'r Cynghorydd S Hodges yn eilio, y dylid gosod y Rheolau Sefydlog i'r naill ochr am gyfnod o 10 munud.

Cynigiodd y Cynghorydd S Hodges, gyda'r Cynghorydd Lloyd-Selby yn eilio, y dylid danfon y llythyr a luniwyd gan gyfreithwyr y Cyngor wedi hepgor paragraff 13, gan ganiatáu cyfnod o bythefnos ar gyfer derbyn ateb oddi wrth JD Wetherspoon. Ni fydd y cofnodion yn cael eu hatodi gyda'r llythyr.

Cymerwyd pleidlais ar y cynnig uchod. Canlyniad y bleidlais oedd y **PASIWYD** y cynnig trwy fwyafriif.

Dros	-	15
Yn erbyn	-	5

PENDERFYNWYD:

1. Y dylid danfon y llythyr a luniwyd gan gyfreithwyr y Cyngor wedi hepgor paragraff 13, gan ganiatáu cyfnod o bythefnos ar gyfer derbyn ateb oddi wrth JD Wetherspoon.

Daeth y cyfarfod i ben am 8.35 pm.

Llofnodwyd Dyddiedig

.....

(Maer y Dref)